

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a dros y rhwydwaith fideo am 10.00 – 12.00 ar 22 Mai 2019

Yn bresennol:

Aelodau: William Callaway (Cadeirydd)
Peter Curran
Gareth Eyres
Gareth Pierce

Archwilwyr: Ian Clarke ac Aled Thomas, PwC (Archwilwyr allanol)
Vicky Davies, TIAA (Archwilwyr mewnol)
Carol Warburton, Baldwins (Archwilwyr mewnol blaenorol) ar gyfer eitem 6

Swyddogion: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Yn bresennol: Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Coleg)

Ymddiheuriadau: Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso, ymddiheuriadau a sylwadau agoriadol	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod. 1.3 Nododd y Cadeirydd y byddai cyfarfod gyda'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn digwydd yn syth ar ôl y cyfarfod hwn heb y swyddogion ac yn dilyn hynny byddai'r aelodau yn cwrdd <i>in camera</i> .		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	1.4 Diolchwyd Carol Warburton am ei gwaith fel archwilydd mewnol yn hwyluso strwythurau'r Coleg ers y dyddiau cychwynnol.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Datganodd William Callaway mai cwmni TIAA yw Archwilwyr Mewnol Prifysgol De Cymru. 2.2 Datganodd Peter Curran, mai cwmni TIAA yw Archwilwyr Mewnol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi	3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2019, fel cofnod cywir. 3.2 Adroddwyd bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion naill ai wedi'u gwireddu neu fod yr eitem yn ymddangos ar yr agenda. 3.3 <u>Eitem 3.4 – Trosglwyddo cyfrifoldeb y polisi buddsoddi</u> Adroddwyd bod cyfrifoldeb y polisi buddsoddi wedi ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Nodwyd y byddai cyfarfod rhwng William Callaway, Peter Curran, Dr Haydn Edwards, Gareth Pierce a'r swyddogion i drafod proses monitro'r rheolwyr buddsoddi yn dilyn y cyfarfod hwn. Bydd papur yn amlinellu dulliau monitro yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 25 Mehefin 2019. 3.4 <u>Eitem 5.3 – Penodi Archwilwyr Mewnol 2019</u> Adroddwyd y cymeradwyodd y Bwrdd Cyfarwyddwyr gwmni TIAA fel Archwilwyr Mewnol y Coleg tan 31 Mawrth 2022. 3.5 <u>Eitem 5.6 – Mesuryddion perfformiad yr Archwilwyr Mewnol</u> Adroddwyd y diweddarwyd y mesuryddion yn dilyn argymhellion yn y cyfarfod diwethaf ac fe'u cylchredwyd i'r aelodau ar 12 Ebrill 2019.	Papur yn amlinellu dulliau monitro buddsoddiadau i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	25 Mehefin 2019

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Llythyr Grant Llywodraeth Cymru (Eitem 5)	4.1 Nodwyd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru. 4.2 Adroddwyd bod cynnwys y llythyr yn gyson â'r llynedd ar wahân i'r adrannau ychwanegol yn ymwneud ag Addysg Bellach a Phrentisiaethau.		
5. Archwilwyr Mewnol blaenorol: Llywodraethiant (Eitem 6a)	5.1 Cyflwynwyd crynodeb o'r adroddiad ar Lywodraethiant gan Carol Warburton. 5.2 Adroddwyd yr adolygydd priodolwydd y newidiadau a wnaed i Lywodraethiant y Coleg. 5.3 Adroddwyd bod holiadur gwerthuso aelodau'r Bwrdd yn enghraifft o arfer da. 5.4 Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnig sicrwydd sylweddol ac argymhellwyd bod yr Archwilwyr Mewnol newydd yn ymgymryd ag adolygiad llawn maes o law.		
6. Archwilwyr Mewnol blaenorol: Adroddiad Blynyddol (Eitem 6a) Ar y pwynt hwn cyrhaeddodd Peter Curran Ar y pwynt hwn ymadawodd Carol Warburton	6.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2018/19 gan Carol Warburton o gwmni Baldwins. 6.2 Adroddwyd bod yr adroddiad yn cynnig sicrwydd rhesymol (sef y sicrwydd uchaf ar gyfer adroddiadau blynyddol gan gwmni Baldwins) tan 31 Mawrth 2019 sy'n gyson â'r blynyddoedd a fu. 6.3 Adroddwyd bod y pum argymhelliad yn y tri maes (caffael a gwariant; cyflogres a threuliau, a'r gyllideb - gweler eitem 9) wedi'u gweithredu a'u cwblhau. 6.4 Adroddwyd bod prosesau cryfach i ddogfennu unrhyw argymhellion mewn lle ar gyfer y dyfodol ac i'w hadrodd i'r pwyllgor.	TIAA a SL i gyd-lynu a darparu diweddariad i'r pwyllgor	Parhaol
7. Archwilwyr Mewnol newydd: Rhaglen archwilio mewnol 2019/20 (Eitem 7)	7.1 Cyflwynwyd crynodeb o raglen archwilio mewnol 2019/20 yr Archwilwyr Mewnol gan Vicky Davies. 7.2 Eglurwyd graddau asesiad sicrwydd TIAA. Defnyddir pedair lefel sef sicrwydd sylweddol, rhesymol, cyfyngedig		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>a dim. Yr un asesiad a ddefnyddir ar gyfer adolygiadau unigol a'r adroddiad blynyddol.</p> <p>7.3 Trafodwyd yr amserlen a chytunwyd i newid amseriad asesu diogelwch seiber a diogelu data. Argymhellwyd ychwanegu dyddiad cyflwyno'r adroddiadau i'r pwyllgor yn yr amserlen. Argymhellwyd cyfuno'r mesuryddion perfformiad yn y siarter archwilio.</p> <p>7.4 Atgoffwyd yr aelodau y gellid gofyn i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am ragor o ddyddiau archwilio petai angen.</p> <p>7.5 Yn ystod y drafodaeth adroddodd y Prif Weithredwr mai camau cychwynnol yn unig sydd wedi eu cymryd hyd yma yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymestyn gwaith y Coleg i faes ôl-16. Bydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn trafod y datblygiadau, gan gynnwys sefydlu strwythurau o fewn y Coleg a'r adnoddau ychwanegol y bydd eu hangen yn y tymor canolig, yn eu cyfarfod ar 25 Mehefin.</p> <p>7.6 Cymeradwywyd y cynllun archwilio yn amodol ar y diwygiadau a nodwyd.</p>	TIAA i ddiwygio'r amserlen	Ar unwaith
<p>8. Archwilwyr Allanol: trefniadau archwilio 2018/19 (Eitem 8)</p> <p>Ar y pwynt hwn ymadawodd Ian Clarke</p>	<p>8.1 Cyflwynwyd crynodeb o drefniadau archwilio'r Archwilwyr Allanol gan Aled Thomas.</p> <p>8.2 Eglurwyd proses yr archwiliad, cyfrifoldebau a risgiau, a'r amserlen.</p> <p>8.3 Trafodwyd amseru cofnodi data USS a'r drafft a baratowyd eisoes gan BUFDG (British Universities Finance Directors Group).</p> <p>8.4 Derbyniwyd y cynllun archwilio allanol.</p>		
<p>9. Argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol</p>	<p>9.1 Cafwyd diweddariad ar argymhellion yr Archwilwyr Mewnol ac Archwilwyr Allanol ers Chwefror 2019 gan y Prif Weithredwr.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(Eitem 9)	9.2 Nodwyd bod yr argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn (gweler eitem 6). 9.3 Adroddwyd bod y cyfrifoldeb o oruchwylio gweithredu'r argymhellion wedi ei ddirprwyo i'r Rheolwr Gweithredu. 9.4 Argymhellwyd bod mwy o naratif a thabl gweithredu'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad nesaf.	SL i ddiweddarau diwyg yr adroddiad nesaf	23 Hydref 2019
10. Y Gofrestr Risg (Eitem 10)	10.1 Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gweithredu ar y Gofrestr Risg, gan gynnwys y diweddariadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf. 10.2 Trafodwyd risg 2 (darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector AU) a nodwyd bod y Coleg wedi cynnal trafodaethau gyda rhai prifysgolion penodol mewn perthynas â thoriadau arfaethedig mewn meysydd pwnc sydd wedi eu cefnogi gan y Coleg yn y gorffennol. Mewn rhai o'r meysydd hyn mae'r Coleg yn parhau i ddarparu Grant Pynciol ond mewn eraill disgwylir i'r sefydliad gynnal y ddarpariaeth o'u hadnoddau eu hunain yn unol ag egwyddorion y Cynllun Academiaidd. Bydd trafodaethau lefel uchel a phwnc penodol gyda phrifysgolion yn parhau yn ôl yr angen. Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr nesaf ar newidiadau yn y ddarpariaeth a gynigir i fyfyrwyr ac y bydd cyfle i aelodau'r Bwrdd drafod yn llawn bryd hynny. 10.3 Trafodwyd risg 3 (ehangu rôl y Coleg i addysg ôl-16) a nodwyd y bydd angen adnoddau ychwanegol yn y dyfodol er mwyn gwireddu'r Cynllun Gweithredu. Argymhellwyd cyfeirio at y ffaith y byddai angen rheoli disgwyliadau pe na byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r adnoddau angenrheidiol. Wrth drafod risg 5 (newidiadau allanol yn effeithio ar y Coleg) nodwyd cyd-destun Adroddiad Augar a sut y gallai'r argymhellion effeithio ar lefel darpariaeth cyfrwng Cymraeg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>10.4 Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd y diweddariadau i'r gofrestr, gan gynnwys argymhellion yr aelodau, i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i'w ystyried yn llawn.</p> <p>10.5 Trafodwyd effeithiolrwydd y Gofrestr Risg a ddatblygwyd yn sgil arweiniad yr Athro Iwan Davies flwyddyn yn ôl. Argymhellwyd bod y swyddogion yn adolygu'r broses ymhen blwyddyn arall.</p> <p>10.6 Argymhellwyd gofyn i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a ydynt yn hapus gyda gwaith y pwyllgor ar y Gofrestr.</p> <p>10.7 Argymhellodd yr Archwilwyr Mewnol rhai gwelliannau gweithredu a chytunwyd i gyd-lynu â'r Rheolwr Gweithredu.</p>	<p>Cofrestr Risg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p> <p>Swyddogion i adolygu effeithiolrwydd y Gofrestr Risg</p> <p>Trafod rheolaeth y Gofrestr gan y pwyllgor</p> <p>TIAA a SL i drafod</p>	<p>25 Mehefin 2019</p> <p>Tymor yr haf 2020</p> <p>25 Mehefin 2019</p> <p>Erbyn tymor yr hydref 2019</p>
<p>11. Adroddiad cydymffurfio (Eitem 11)</p>	<p>11.1 Derbyniwyd adroddiad cydymffurfio.</p> <p>11.2 Nodwyd y bu dau gais ac ymateb rhyddid gwybodaeth; a thri o dendrau a oedd yn gwro o'r arfer. Eglurwyd cyddestun y tendrau yn llawn a nodwyd hynny gan y Pwyllgor.</p> <p>11.3 Adroddwyd y byddai'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant yn ystyried Polisi Chwythu'r Chwiban yn eu cyfarfod.</p>		
<p>12. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg (Eitem 12)</p>	<p>12.1 Cyflwynwyd adroddiad drafft y Pwyllgor Archwilio a Risg gan y Cofrestrydd.</p> <p>12.2 Argymhellwyd manylder pellach ar bresenoldeb aelodau a gwerth ychwanegol y pwyllgor y tu hwnt i'r rhaglen waith blynyddol. Cytunwyd y dylai cadeirydd y pwyllgor gynnwys testun pellach i'r adroddiad.</p> <p>12.3 Yn amodol ar y diwygiadau uchod cytunwyd i gyflwyno'r adroddiad at sylw'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 25 Mehefin 2019.</p>	<p>DT (a WC) i ddiwygio a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p>	<p>25 Mehefin 2019</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
13. Perfformiad yr Archwilwyr Allanol a'r Archwilwyr Mewnol 2018/19	13.1 Cytunwyd i ystyried perfformiad yr Archwilwyr Mewnol ymhen blwyddyn a'r Archwilwyr Allanol yng nghyfarfod yr hydref.	NB i ddiwygio'r rhaglen waith	Tymor yr haf 2019
14. Trefniadau hunan-adolygu effeithiolrwydd y pwyllgor	14.1 Trafodwyd trefniadau hunan-adolygu effeithiolrwydd y pwyllgor a rhinweddau trafodaeth dros holiadur ar gyfer pwyllgor bychan. 14.2 Cytunwyd i osod trafodaeth flynyddol <i>in camera</i> yn y rhaglen waith yn yr hydref.	NB i ddiwygio'r rhaglen waith	Tymor yr hydref 2019
15. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	15.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf dros y rhwydwaith fideo: <ul style="list-style-type: none"> • 23 Hydref 2019, 10.00-12.30 • 4 Mawrth 2020, 10.00-12.30 • 3 Mehefin 2020, 10.00 -12.30 15.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.		
16. In camera	16.1 <u>Yn absenoldeb swyddogion y Coleg</u> Adlewyrchodd aelodau'r pwyllgor ar y gwelliannau diweddar gan nodi bod y rheolwyr nid yn unig wedi cymryd rhan yn y gwelliannau ond eu bod wedi bod yn gydweithredwyr parod. Nodwyd diolch i'r holl swyddogion a fu'n ymwneud â gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg; am eu gwaith caled a'u hamynedd. Gobeithir y bydd y gwelliannau yn arwain at bwyllgor mwy effeithiol, yn gallu ychwanegu gwerth yn well i'r Coleg a'i lywodraethiant. Roedd yr aelodau o'r farn bod perthynas dda, agored a gonest rhwng aelodau, swyddogion ac archwilwyr. 16.2 <u>Yn absenoldeb yr archwilwyr a swyddogion y Coleg</u>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Nododd yr aelodau y berthynas waith dda gydag archwilwyr, cynlluniau cadarnhaol ar gyfer Archwilio Allanol a dechrau da gan TIAA.		